



Cefndir

Mae'r cylchlythyr hwn yn disgrifio prif ganfyddiadau adran Canfyddiadau o Newid yn yr Hinsawdd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-2017. Mae'r canlyniadau llawn a Dangosydd Canlyniadau Rhyngweithiol i'w gweld yn <http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?skip=1&lang=cy>

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i is-set o ymatebwyr yr Arolwg Cenedlaethol;

- Ydych chi'n credu bod hinsawdd y byd yn newid?
- Pa mor bryderus ydych chi am newid yn yr hinsawdd?
- Beth yn eich barn chi yw prif achosion y newid yn yr hinsawdd?
- Beth ydych chi wedi'i wneud i helpu i amddiffyn yr amgylchedd neu fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd?

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn cynnwys ystod eang o gwestiynau am ddemograffeg, ffactorau economaidd-gymdeithasol megis amddifadedd, ac am ble mae pobl yn byw (megis ardaloedd gwledig neu drefol). Mae'r ymatebion wedi'u pwysoli i'w gwneud yn nodweddiadol o boblogaeth oedolion Cymru.

Canfyddiadau allweddol

- Mae mwyafrif mawr o'r ymatebwyr (84%) yn credu bod hinsawdd y byd yn newid; 9% ddim yn gwybod, a 7% yn anghytuno.
- Mae'r mwyafrif (67%) yn 'bryderus iawn' neu'n 'weddol bryderus' am newid yn yr hinsawdd, ond mae 20% sydd 'ddim yn bryderus iawn', a 13% arall sydd 'ddim y bryderus o gwbl'.
- Mae ychydig dros hanner (51%) o'r boblogaeth yng Nghymru yn credu bod newid yn yr hinsawdd yn cael ei achosi'n rhannol gan brosesau naturiol ac yn rhannol gan weithgarwch dynol. Mae 37% arall yn credu ei fod yn cael ei achosi'n bennaf gan weithgarwch dynol, tra bo 9% yn credu ei fod yn cael ei achosi gan brosesau naturiol yn unig.
- Roedd pob un o'r ymatebwyr bron (97%) wedi ailgylchu eu gwastraff cartref er mwyn gwarchod yr amgylchedd. Nododd bron i hanner (47%) eu bod yn defnyddio llai o egni yn eu cartrefi er mwyn helpu i warchod yr amgylchedd a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Canfyddiadau am newid hinsawdd byd-eang


Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn credu bod hinsawdd y byd yn newid ai peidio. Roedd y mwyafrif o bobl (84%) yn cytuno ei fod yn newid, dywedodd 9% nad oeddent yn gwybod, ac roedd 7% yn anghytuno. Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl grŵp oedran, rhyw, nac os oeddynt yn byw mewn ardal drefol neu wledig; fodd bynnag, roedd oedolion mewn amddifadedd sylweddol yn llai tebygol o gytuno. Roedd y rhan fwyaf o'r gwahaniaeth i'w briodoli i gyfran uwch o bobl yn ateb "ddim yn gwybod". Roedd ymatebwyr gyda chymhwyster addysgol uwch (e.e. NVQ, HNC, HND, neu radd) yn llawer mwy tebygol o gredu bod yr hinsawdd yn newid.

Lefel y pryder am newid yn yr hinsawdd

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl eu bod yn 'bryderus iawn' neu'n 'weddol bryderus' am newid yn yr hinsawdd (21% a 46% yn y drefn honno). Dywedodd un o bob pump ymatebwr (20%) nad oeddent yn 'bryderus iawn', ond dywedodd 13% nad oeddent yn 'bryderus o gwbl' am newid yn yr hinsawdd.

- Roedd yn ymddangos bod gwahaniaethau rhwng y grwpiau oedran, ond roedd lefelau eithaf uchel o ansicrwydd ynglŷn â'r canlyniadau hyn ac fe ddylid eu trin â gofal. Y bobl ieuengaf (16-24) oedd y lleiaf tebygol o ddweud eu bod yn 'bryderus iawn' (18%) o'i gymharu â 26% o bobl hŷn 65-74 oed.

Ffigwr. 1- Lefel pryder am newid yn yr hinsawdd yn ôl band oedran



Mae bariau gwall yn dynodi cyfyngau hyder o 95% mewn perthynas â chyfraddau'r boblogaeth, sydd wedi'u cynnwys yn yr achos hwn oherwydd y lefel uchel o ansicrwydd ynglŷn â rhai is-grwpiau. Nid yw'r is-grŵp y bobl ifanc 16-24 oed nad oedd yn bryderus o gwbl am newid yn yr hinsawdd yn cael ei ddangos gan ei fod yn cynnwys llai na 30 o bobl.


- Roedd rhyw hefyd yn gwneud gwahaniaeth i lefelau'r pryder am newid yn yr hinsawdd, gyda 70% o ferched yn 'bryderus iawn' neu'n 'weddol bryderus' am newid yn yr hinsawdd, o'i gymharu â 64% o ddynion. Ond mewn cyferbyniad, roedd dynion yn llawer mwy tebygol na merched o beidio â bod yn bryderus 'o gwbl' (16% o'i gymharu â 10%)
- Roedd rhai gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl lefel addysg: dywedodd 23% o'r ymatebwyr oedd heb unrhyw gymwysterau o gwbl nad oeddent yn bryderus 'o gwbl' am newid yn yr hinsawdd, o'i gymharu â dim ond 8% o'r rhai oedd â chymhwyster addysg uwch. Yn yr un modd, roedd y rhai oedd â'r lefelau uchaf o addysg yn fwy tebygol (26%) o fod yn 'bryderus iawn' o'i gymharu â 17% o'r rhai oedd heb unrhyw gymwysterau.
- Mae cysylltiad hefyd rhwng lle mae pobl yn byw a gwahanol lefelau o bryder, gyda phobl mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod yn 'bryderus iawn' (25%) o'i gymharu â dim ond 19% o'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol.

Canfyddiadau am achosion newid yn yr hinsawdd

Mae ychydig dros hanner (51%) o'r boblogaeth yng Nghymru yn credu bod newid yn yr hinsawdd yn cael ei achosi gan gyfuniad o brosesau naturiol a gweithgarwch dynol. Mae 37% arall o'r boblogaeth yn credu ei fod yn bennaf oherwydd gweithgarwch dynol, tra bod 9% yn credu ei fod yn cael ei achosi gan brosesau naturiol yn unig.

- Mae oedran yn ffactor arwyddocaol yn y gwahanol ganfyddiadau am achosion newid yn yr hinsawdd. Mae pobl hŷn lawer yn fwy tebygol o gredu ei fod yn cael ei achosi gan brosesau naturiol yn bennaf. Ac yn yr un modd, mae pobl iau (yn enwedig y rhai 16-24 oed) lawer yn fwy tebygol o feddwl bod newid yn yr hinsawdd yn cael ei achosi'n bennaf gan weithgarwch dynol.
- Roedd cymysgedd o ymatebion gan bobl gyda gwahanol lefelau o addysg: roedd y rhai gyda lefelau uwch o gymwysterau yn fwy tebygol o gredu bod newid yn yr hinsawdd yn cael ei achosi naill ai gan gyfuniad o brosesau naturiol a dynol neu gan weithgarwch dynol yn bennaf. Roedd y rhai heb unrhyw gymwysterau yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod yn credu ei fod yn cael ei achosi gan brosesau naturiol.

Ffigwr. 2- Canfyddiadau o achosion newid yn yr hinsawdd yn ôl grŵp oedran




Mae'r gyfran a ymatebodd 'Nid oes ffasiwn beth â newid yn yr hinsawdd' yn llai na 30 o unigolion ym mhob grŵp oedran ac felly nid yw'n cael ei ddangos. Mae'r un peth yn wir am bobl 16-24 oed sy'n credu bod newid yn yr hinsawdd yn cael ei achosi'n bennaf gan brosesau naturiol.

Camau i amddiffyn yr amgylchedd neu fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

Gofynnodd yr arolwg i bobl a oeddent wedi gwneud unrhyw beth yn ystod y 12 mis diwethaf i helpu i amddiffyn yr amgylchedd neu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Roedd y rhain yn amrywio o weithredoedd 'bob dydd' megis ailgylchu, i fesurau effeithlonrwydd ynni cartref, prynu nwyddau 'gwyrrdd' a gwirfoddoli amgylcheddol. Nid oes unrhyw syndod mai ailgylchu oedd y weithred mwyaf cyffredin. Yn ddiddorol, roedd bron i hanner yr ymatebwyr wedi lleihau eu defnydd o ynni cartref (47%), neu wedi prynu offer trydan effeithlon (41%), ond dim ond 7% oedd wedi newid i gyflenwr ynni gwyrrdd. Dywedodd un o bob pedwar o bobl eu bod wedi lleihau eu defnydd o'r car, ond dim ond 3% o'r ymatebwyr oedd wedi mynd ati i wirfoddoli neu i helpu i amddiffyn yr amgylchedd neu i fod yn aelod o grŵp amgylcheddol.

Ffigwr. 3- Camau a gymerwyd i amddiffyn yr amgylchedd neu fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd



- Roedd perthynas ddiddorol a chymhleth rhwng gweithredoedd ac oedran. Roedd yr ymatebwyr ieuengaf (16-24) yn llai tebygol o ymgymryd â nifer o weithredoedd megis defnyddio llai ar y car, prynu nwyddau ecogyfeillgar, garddio ar gyfer bywyd gwylt, neu wirfoddoli. Ond efallai nad yw hyn yn adlewyrchiad o'u hagweddau; mae'r ymatebwyr ieuengaf yn llai tebygol o fod â char, o fod â'u gardd eu hunain, neu o gael y dewis ynghylch prynu nwyddau ar gyfer y cartref. Mae ymgymryd â gweithgareddau er mwyn gwarchod yr amgylchedd bwysicaf ymhlith y grwpiau oedran 25 - 44 a 45 - 64.
- Roedd ymatebwyr sy'n byw mewn amddifadedd materol yn llai tebygol o ymgymryd ag unrhyw weithgaredd posibl, heblaw am lofnodi deiseb.
- Mae perthynas rhwng lefelau pryder am newid yn yr hinsawdd ac ymddygiad. Roedd y rhai hynny oedd yn 'bryderus iawn' neu'n 'weddol bryderus' yn sylweddol fwy tebygol o fod wedi ymgymryd â rhai o'r dulliau o weithredu er mwyn amddiffyn yr amgylchedd neu fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Tabl 1- Camau gweithredu amgylcheddol yn ôl y lefel o bryder am newid yn yr hinsawdd

Camau a gymerwyd er mwyn helpu i ddiogelu'r amgylchedd	Lefel pryder am newid yn yr hinsawdd			
	Pryderus iawn	Gweddol bryderus	Ddim yn bryderus iawn	Ddim yn bryderus o gwbl
	%	%	%	%
Ailgylchu	98	97	96	91
Lleihau faint rwy'n teithio yn y car	38	26	18	12
Wedi newid i gyflenwr ynni gwyrdd	12	8	-	-
Prynu peiriannau sy'n arbed mwy o ynni	49	48	39	30
Lleihau faint o ynni rwy'n ei ddefnyddio gartref	60	51	39	34
Prynu bwyd a gynhyrchwyd yn lleol	51	42	32	25
Prynu cynnyrch sy'n eco-gyfeillgar	33	21	13	-
Garddio ar gyfer bywyd gwylt (gan gynnwys bwydo adar)	44	31	21	22
Cysylltu â'm AS neu AC lleol ynghylch materion amgylcheddol neu newid yn yr hinsawdd	-	-	-	-
Llofnodi deiseb am newid yn yr hinsawdd neu gadwraeth, naill ai ar-lein neu ar bapur	19	7	-	-
Gwirfoddoli'n weithredol i helpu i ddiogelu'r amgylchedd	6	3	-	-
Bod yn aelod o grŵp amgylcheddol neu newid yn yr hinsawdd	8	-	-	-

Mae ffigurau sy'n cynrychioli grwpiau bychain iawn o bobl (<30) wedi'u disodli gan wahannod (-) er mwyn diogelu cyfrinachedd. Caniateir mwy nag un ymateb felly nid yw'r colofnau'n gwneud cyfanswm o 100%.

Metaddata

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn bartner yn yr Arolwg Cenedlaethol Cymru newydd; dyma ail gyhoeddiad CNC o'r Arolwg newydd.

Mae gwybodaeth dechnegol am yr arolwg, gan gynnwys cyfyngau hyder ar gyfer pob eitem o'r arolwg, ar gael gan Lywodraeth Cymru ar brif dudalen yr arolwg ac yn <http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/design-methodology/technical-information/?skip=1&lang=cy>

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn wedi'i chategoreiddio fel Ystadegau Swyddogol, ac fe'i lluniwyd ac fe'i cyhoeddwyd yn unol â threfniadau a gymeradwywyd gan Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig.

5ed Rhagfyr 2017

Ystadegydd Cyfrifol:

Richard Cardwell

E-bost: richard.cardwell@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Gwyddonydd cymdeithasol: Susan Williams

E-bost: susan.a.williams@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ymholiadau'r wasg:

cyfathrebu@cyfoethnaturiol.cymru